Pecyn cymorth GALLU GWNEUD

Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu i landlordiaid cymdeithasol

i2i - inform to involve

i2i - hysbysu i ymrwymo

ADNODD 3: Deunydd Enghreifftiol

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu hwn i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru gan Anthony Collins Solicitors LLP (ACS) a Richard Macfarlane ACS. Anthony Collins Solicitors LLP (ACS) a Richard Macfarlane yw'r ymarferwyr mwyaf profiadol yn y DU mewn cynnwys gofynion buddion cymunedol mewn contractau a chytundebau sector cyhoeddus; mae eu gwaith yn cynnwys Prosiect Peilot Buddion Cymunedol mewn Caffaeliad Cyfarwyddiaeth Gaffaeliad yr Alban.

Mae ***Anthony Collins Solicitors*** yn gyfreithwyr ac ymgynghorwyr sy'n canolbwyntio ar 7 thema waith, Trawsnewid Cymunedau; Plant a Phobl Ifanc, Oedolion sy'n Agored i Niwed; Menter; Tai i Bawb; Adloniant a Hamdden; a Chymunedau Ffydd. Mae ein thema ffocws Trawsnewid Cymunedau yn canolbwyntio ar waith gydag ac ar gyfer sefydliadau casglu data cenedlaethol, cymdeithasau cymunedol, awdurdodau lleol, ysgolion a mentrau cymdeithasol, ac ar bryderon amrywiol gan gynnwys materion amgylcheddol a darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus.
Yn fwy na thebyg, Mark Cook yw un o'r arbenigwyr cyfreithiol mwyaf blaenllaw ar fuddion cymunedol a chynaliadwyedd mewn caffaeliad, ers ysgrifennu ar y cyd â Richard Macfarlane Adroddiad JRF Achieving Community Benefits through contracts: law, policy and practice yn 2002. Mae wedi gweithio gyda mwy na 60 o awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn Lloegr a'r Alban yn y maes pwysig hwn.

Gellir cysylltu â Mark Cook neu Gayle Monk yn:
Ffôn: 0121 212 7472
E-bost: mark.cook@anthonycollins.com or gayle.monk@anthonycollins.com

Mae ***Richard Macfarlane*** yn ymchwilydd ac ymgynghorydd annibynnol gyda 27 mlynedd o brofiad o ddatblygu economaidd ac adfywio trefol lleol, sydd wedi arbenigo mewn helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio eu dylanwad cytundebol i sicrhau buddion cymunedol. Mae ganddo swyddfeydd yn Llundain ac yn Dumfries a Galloway.

Richard yw'r ymgynghorydd annibynnol mwyaf profiadol sy'n gweithio ar 'lafur lleol mewn adeiladu'. Mae wedi gwneud amrywiaeth eang o waith sy'n ceisio sicrhau cynifer â phosibl o fuddion adfywio a datblygu i'r farchnad lafur leol. Richard a luniodd ac a reolodd yr ymchwil a ariannwyd gan JRF gyda Mark Cook a arweiniodd at gyhoeddi Achieving Community Benefits through contracts: law, policy and practice, ac ers ei gyhoeddi bu'n rheoli prosiectau amrywiaeth o raglenni datblygu a gweithredu polisi.

Gellir cysylltu â Richard yn:
Ffôn: 07768 893 731
E-bost: RmacfarlaneSalt@aol.com

PWYSIG: Mae'r canllaw atodol i ddefnyddio'r templedi i'w weld yn www.whq.org.uk/i2i a fydd yn rhoi cymorth ar gynnwys gofynion RHT yng nghontractau tai eich sefydliad. Mae bob un o'r tri adnodd sy'n cael eu cynnwys yn y Pecyn Cymorth Gallu Gwneud yn rhoi cyngor cyffredinol yn unig. Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn eu defnyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Templed 1: Gofynion RHT sylfaenol:
mae hwn yn cynnwys **geiriad drafft** sy'n addas i'w ddefnyddio yn y **manylebau / gwahoddiad i dendro** neu rywbeth tebyg ar gyfer contract annibynnol. Mae'r gofynion a ddisgrifir yn nhempled 1 yn ymdrin â recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu a chyfleoedd cadwyn gyflenwi.

Templed 2: Datganiad dull profforma sylfaenol:
cynlluniwyd y **datganiad dull** hwn i'w ddefnyddio ochr yn ochr â thempled 1 i sicrhau bod cynigyddion am gontract yn ateb yr un cwestiynau ac yn darparu'r un wybodaeth sylfaenol am RHT neu ofynion eraill.

Templed 3: Darpariaethau ychwanegol ar gyfer ymagwedd swm blaendal:
mae hwn yn darparu geiriad arall y gellir ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle bo gofyn i'r contractwr a ddewisir ddarparu cyllid drwy fodd **blaendal** i'w annog i gydymffurfio â gofynion RHT, ac i yswirio yn erbyn diffyg cydymffurfiad.

Templed 4: Ychwanegiadau ac amrywiadau ar yr ymagwedd ar gyfer cytundeb fframwaith:
mae hwn yn darparu geiriad arall y gellir ei ddefnyddio pan fo'r awdurdod contractio'n caffael **cytundeb fframwaith,** yn hytrach na chontract annibynnol, lle bo angen i'r gofynion gael eu cynnwys yn y **cytundeb fframwaith** ei hun ac mewn contractau **'yn ôl y gofyn'** penodol o dan y fframwaith hwnnw. Gellid addasu'r testun yn nhempled 4 hefyd i'w ddefnyddio mewn **prynu grŵp.**

Templed 5: protocol RHT:
mae'r protocol yn nhempled 5 yn ddelfrydol ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw'r awdurdod contractio wedi cynnwys y buddion cymunedol dymunol yn y broses gaffael, nac mewn contract cyfredol. Mae'r protocol yn darparu **trefniant gwirfoddol** sy'n gallu eistedd ochr yn ochr â chontract.

Templed 6: Fframwaith sgorio enghreifftiol ar gyfer caffaeliad adeiladu:
mae'r templed hwn yn cynnwys **fframwaith sgorio** i'w ddefnyddio wrth sgorio cynigyddion i gontractau ar gyfer gwaith adeiladu. Mae'n cynnwys gofynion a allai fod yn benodol berthnasol i adeiladu, ac mae'n awgrymu **mecanwaith sgorio.**

Templed 7: Cymalau contract enghreifftiol:
mae'r cymalau contract yn nhempled 7 yn adlewyrchu'r gofynion sylfaenol a nodir yn nhempled 1, a gellir eu hymgorffori felly mewn contract drafft os caiff y gofynion hyn eu cynnwys yn y caffaeliad. Hefyd yn nhempled 7 mae cymalau contract sy'n briodol i'w defnyddio wrth ddefnyddio'r ymagwedd swm blaendal a amlinellir yn nhempled 3.

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru sydd eisiau cyflawni cynhwysiant cymdeithasol ehangach drwy eu rhaglenni gwella a buddsoddi. Y prif bethau sy'n ysgogi'r gwaith hwn yw:

- penderfynoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael y gwerth ychwanegol mwyaf posibl o fuddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru
- y gwaith arloesol a wnaethpwyd gan Werth Cymru i ddatblygu'r canllaw Buddion Cymunedol cam wrth gam (1)
- yr ymrwymiad cynyddol gan landlordiaid cymdeithasol i'r amcanion SATC a mwy (2) a ddatblygwyd gan i2i – ymrwymo i hysbysu – i sicrhau bod buddsoddiad mewn tai hefyd yn cyflawni adfywio lleol a pherchenogaeth gymunedol ar dai
- y posibilrwydd i'r sector landlord cymdeithasol ehangach gyflawni mwy o ran adfywio ar gefn Adolygiad Essex o dai fforddiadwy yng Nghymru (3)

Nod y pecyn cymorth hwn yw cefnogi landlordiaid cymdeithasol i gynnwys gofynion **'recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu'** (RHT) mewn contractau SATC.

Rhennir y Pecyn cymorth yn dri adnodd cysylltiedig:

Adnodd 1 – mae **canllaw cyflwyniadol** yn rhoi gwybodaeth allweddol am ddefnyddio RHT fel gofynion craidd drwy gydol y broses gaffael a'r materion i'w hystyried gan ddefnyddwyr posibl

Adnodd 2 – canllaw cynhwysfawr csy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion cyfreithiol a pholisi a chymorth ochr gyflenwi sydd ar gael i'w lwytho i lawr ar wefan i2i www.whq.org.uk/i2i mewn fformat PDF

Adnodd 3 – cyfres o ddeunydd enghreifftiol i'w llwytho i lawr a'i haddasu o wefan i2i www.whq.org.uk/i2i mewn fformat Microsoft Word

Mae'r arfau a drafodir drwy'r canllaw cyfan hwn yn **hyblyg** ac er bod y ffocws ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gellir **addasu'r prosesau i'w defnyddio** drwy'r sector tai a sectorau eraill. Yn ogystal, er bod y pecyn cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar **RHT,** gellir mynd ar drywydd buddion cymunedol eraill drwy gontractau SATC a chontractau tebyg.

1.2 Sut i ddefnyddio Adnodd 3

I ddangos sut y gellir cynnwys RHT mewn contractau a chytundebau datblygu drwy gaffaeliad, mae cymalau enghreifftiol wedi'u datblygu gan ***Anthony Collins Solicitors LLP.*** *Caiff y rhain eu cynnwys yn yr adnodd hwn (adnodd 3). Dylid sicrhau bod y deunyddiau:*

- *yn* ***gydnaws*** *â phwerau a pholisïau'r sefydliad caffael;*
- *yn* ***addas*** *i'r contract;*
- *yn* ***fforddiadwy;*** *ac*
- *yn* ***gyraeddadwy*** *o'r ffynonellau/cymunedau targed sydd ar gael.*

Mae Adnodd 3 yn cynnwys testun drafft y gellir ei ddefnyddio mewn gwahanol ***amgylchiadau*** *yn ystod y broses o ymgorffori RHT yn y prosesau caffael a chontractio. Mae'r gofynion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu yn yr Adnodd hwn yn canolbwyntio ar* ***recriwtio a hyfforddi cyflogeion newydd,*** *yn ddelfrydol o sectorau o'r* ***gymuned*** *sydd fel arall o dan* ***anfantais*** *yn y farchnad lafur. Wrth reswm, gellid* ***addasu*** *darpariaethau neu eu hychwanegu at y man lle hoffai'r awdurdod contractio gynnwys buddion cymunedol eraill.*

Templed 1 – Gofynion RHT Sylfaenol: addas ar gyfer caffael contract annibynnol

Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu (RHT) a Chyfleoedd Cadwyn Gyflenwi

Mae Templed 1 yn cynnwys:

- geiriad drafft sy'n addas i'w ddefnyddio yn y cyfnod manylebau / gwahoddiad i dendro.

Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

1. Cyflwyniad

O ganlyniad i'r wybodaeth a roddir yn Hysbysiad Contract OJEU fod gofyn i'r Contractwr gyfranogi'n weithgar mewn adfywio economaidd a chymdeithasol yn yr ardal, bydd y Contractwr yn cyflawni'r gofynion RHT a chadwyn gyflenwi fel y nodir isod.

neu

Bwriada'r Cyflogwr y bydd cyflawni'r contract yn cynorthwyo i gyflawni ei bolisïau ar ddatblygu cynaliadwy/ cynhwysiant cymdeithasol/adfywio economaidd a chymdeithasol/ cyfle cyfartal (dewiswch fel sy'n briodol) fel y nodir yn [y dogfennau polisi perthnasol]. Yn unol â hynny, ac o ganlyniad i'r wybodaeth a roddir yn Hysbysiad Contract OJEU, mae gofyn i'r Contractwr gyflawni'r gofynion RHT a chadwyn gyflenwi fel y nodir isod.

2. Y Gofynion

Mae gofyn i gynigyddion gyflwyno Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu gyda phob tendr dilys, gan ddefnyddio'r profforma amgaeedig, gan nodi sut y caiff y canlyniadau canlynol eu cyflawni [mewn ffordd sy'n gost niwtral i'r Cyflogwr]. [dilëwch y diwethaf a newid cwestiwn 11 yn y Datganiad Dull os yw'r Cyflogwr yn gallu/yn fodlon talu cost y gofynion RHT].

2.1 Newydd-ddyfodiaid dan Hyfforddiant

Dewiswch y gofynion o'r cymalau isod gan ddewis:

- y rheini sydd o fath a maint perthnasol i'r gwaith/gwasanaethau i'w cyflawni;
- y rheini sy'n bodloni anghenion i'r gymuned darged;
- y rheini y gall asiantaethau 'ochr gyflenwi' eu cefnogi; a'r
- rheini y gellir eu monitro a'u holrhain yn effeithiol.

1 Disgwylir i'r contractwr/contractwyr a benodir dalu cost y gofynion drwy gael cyllid sector cyhoeddus a diwydiant a thrwy reoli'r gwaith yn effeithiol er mwyn cyflawni cynhyrchiant da gan yr hyfforddeion.

I sicrhau sylw cynnar i'r gofynion RHT, dylai'r Datganiad Dull gael ei dderbyn fel arfer gyda'r tendr. Os nad yw RHT yn rhan o'r weithdrefn ddyfarnu gellir diystyru hyn nes caiff y contract ei ddyfarnu.

Mae'r testun yn gwahaniaethu rhwng newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant sydd wedi'u cofrestru â chorff hyfforddi fel prentisiaid, a hyfforddeion eraill. Gellir cyfrif y cyntaf tuag at y targed hyfforddeion newydd am gyfnod hwy e.e. 104 wythnos yn hytrach na (dyweder) 26 neu 52 wythnos ar gyfer 'hyfforddeion eraill'. Y Cyflogwr sy'n penderfynu hyn.

2.1.1 Darperir o leiaf [ ] [gweler [...] am drafodaeth ar sut i osod targed priodol] o Wythnosau Person o gyflogaeth ar gyfer newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant a gaiff ei recriwtio o ffynhonnell y cytunir arni gan y Cyflogwr, am bob £1m mewn gwerth contract lle bo:

- Wythnos person yn gyfwerth ag un person yn cael ei gyflogi am bum diwrnod naill ai ar safle'r datblygiad neu ar safleoedd eraill (gyda chytundeb y Cyflogwr);[2]
- newydd-ddyfodiad o dan hyfforddiant[3] yn rhywun sydd wedi gadael yr ysgol neu goleg, neu'n oedolyn nad yw wedi'i gyflogi yn y diwydiant adeiladu yn ystod y chwe mis blaenorol, ac sy'n cael hyfforddiant tuag at gymhwyster diwydiant adeiladu neu gymhwyster a gydnabyddir gan y Cyflogwr.
- gellir cyfrif newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant sydd wedi'i gofrestru fel prentis tuag at y targed am [ ] wythnos ar y mwyaf a gellir cyfrif 'hyfforddai arall' nad yw'n brentis am [ ] wythnos ar y mwyaf.

2.1.2 Dylid ymdrechu'n rhesymol i gadw pobl y rhoddwyd gwybod i'r Cyflogwr mai newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant ydynt ar ôl y cyfnodau mwyaf a restrir isod.

(Mae cwestiynau 2, 3 a 4 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

Caiff y term newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant ei ddiffinio'n eang a bwriedir mai'r ddarpariaeth hon yw'r prif 'ofyniad' a fydd yn cyflawni cynhwysiant cymdeithasol. Drwy'r Datganiad Dull bydd y contractwr yn nodi pa gymysgedd o newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant y bydd yn disgwyl eu recriwtio, yn ôl crefft ac a yw'r rhain yn brentisiaid neu'n hyfforddeion eraill. Gellir dylanwadu ei benderfyniad drwy ddarparu taflen wybodaeth am gyflenwi a chyllido hyfforddeion (a anfonir allan gyda'r gwahoddiad i dendro neu gyfwerth) a thrwy sesiwn wybodaeth. Gellir ceisio eglurhad pellach ar ôl dyfarnu i alinio'r cyfleoedd yn well â'r gymuned darged a'r cyflenwad hyfforddiant sydd ar gael.

Gosodir y targed yma fel wythnosau person fesul £1m mewn gwerth contract. Wrth reswm gellir aildrefnu hwn i osod y targed fel Wythnosau person fesul uned dai neu fetr sgwâr o ddatblygiad masnachol, lle bo'r rhain yn hysbys ac os ystyrir bod hyn yn haws ei fesur.

2 Bydd y Cyflogwr yn disgwyl bod trafnidiaeth i safleoedd amgen yn cael ei darparu os nad yw safleoedd o fewn 5 milltir i'r safle lle cyflogir y hyfforddai i ddechrau.

3 Gellid cofrestru hyfforddai fel prentis â chorff a gydnabyddir gan y diwydiant (y gellir ei gyfrif fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos) neu rywun sydd â chontract hyfforddiant neu gontract cyflogaeth neu hunangyflogaeth nad yw'n brentis (y gellir ei gyfrif fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos). (nodwch ffigurau)

2.2 Recriwtio

Mae'r cyntaf o'r paragraffau hyn yn rhoi cyfleoedd i weithwyr medrus/profiadol a gweithwyr sy'n barod ar gyfer swydd. Os nad yw'r disgrifiad hwn yn berthnasol i bobl, dylent fynd drwy raglen cyn recriwtio a bod yn 'hyfforddeion newydd'. Dylid defnyddio'r ail baragraff os yw'r Ganolfan Byd Gwaith yn mynnu hyn.

> Rhaid rhoi gwybod am bob swydd wag ar y safle, gan gynnwys y rheini gydag isgontractwyr, i asiantaethau a enwir gan y Cyflogwr [o leiaf tri diwrnod gwaith cyn recriwtio o fannau eraill], a rhaid i ymgeiswyr a enwir gan yr asiantaethau hyn gael cyfle cyfartal yn y broses ddewis.
>
> Ymhen 13 wythnos o benodi, rhaid i'r contractwr roi tystiolaeth i'r Cyflogwr ei fod wedi mynd i Bartneriaeth Cyflogwr Lleol neu gytundeb cyfwerth i recriwtio pobl sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur.

(Mae cwestiwn 6 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

2.3 Profiad gwaith digyflog

Rhaid sicrhau bod amser cyfwerth â [ ] [nodwch ffigur] o Wythnosau Person fesul £1m mewn gwerth contract ar gael fel cyfleoedd profiad gwaith digyflog i bobl a ddarperir gan sefydliad sydd wedi gwneud gwaith paratoi priodol cyn mynd ar y safle a chael asesiad risg. Efallai na fydd rhai o'r wythnosau hyn yn cael eu defnyddio.

(Mae Cwestiwn 2 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

Mae hyn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gael rhywfaint o brofiad ar y safle. Gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer profion gwaith di-dâl neu brofiad gwaith tymor byr â thâl. Eto, gellir aildrefnu hyn i osod y targed fel wythnosau person fesul uned dai neu fetr sgwâr o ddatblygiad masnachol os yw'r diwethaf yn hysbys ac os ystyrir bod hyn yn haws ei fesur.

2.4 Hyfforddi'r Gweithlu

Gellir defnyddio hyn i sicrhau cyfleoedd am hyfforddiant parhaus i 'hyfforddeion newydd' a helpu i gyflawni gweithlu cwbl achrededig. Gall hwyluso gwaith cyrff fel Sgiliau Adeiladu i gysylltu â chyflogwyr a gwneud y mwyaf o hyfforddiant mewn swydd.

Cymerwch gamau i gynorthwyo gweithwyr i gyflawni cofrestriad CSCS priodol a NVQ Lefel 2 neu gymhwyster cyfwerth a lefelau cymhwyster uwch. Rhaid darparu trefniadau am hyfforddiant, asesu a chofnodi mewn swydd.

(Mae Cwestiwn 5 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

2.5 Cynllun Hyfforddiant

Pan fydd yr hyfforddai neu ei sefydliad hyfforddiant yn mynnu, rhaid cynnal Cynllun Hyfforddi ar gyfer pob 'hyfforddai newydd', gan ddefnyddio profforma os caiff ei darparu. Rhaid sicrhau bod y Cynllun Hyfforddi ar gael i'r Cyflogwr a'i asiantau ei archwilio ar unrhyw adeg resymol.

Dyma ddarpariaeth y gall darparwr hyfforddiant neu hyfforddai ei rhoi ar waith os oes ei hangen a chaiff y cynllun ei ddefnyddio.

2.6 Fforymau Sgiliau

Mae gofyn i'r contractwr gefnogi gwaith [nodwch y fforwm hyfforddiant diwydiant perthnasol] a sefydlir yn ardal y gwaith.

2.7 Tâl

Mae'n rhaid i hyfforddeion a recriwtiaid gael eu talu, o leiaf, yn unol ag arferion diwydiant a rhaid iddynt gael telerau ac amodau cyflogaeth sydd o leiaf cyfwerth â'r rheini a ddarperir i weithwyr sydd â'r un sgiliau a phrofiad.

Anogir contractwyr i gynyddu tâl hyfforddeion yn unol â'u profiad a'u cynhyrchiant.

Caiff hwn ei gynnwys i sicrhau triniaeth gyfartal rhwng hyfforddeion presennol a 'hyfforddeion newydd', ac i gadw cynifer â phosibl ohonynt drwy sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu gwobrwyo wrth i'w cynhyrchiant gynyddu.

2.8 Cyfleoedd cadwyn gyflenwi

2.8.1 Pan fydd y Cyflogwr yn gofyn, cyfranogi mewn mentrau i nodi a meithrin sefydliadau cadwyn gyflenwi ychwanegol sydd yn ardal y datblygiad neu'r cyffiniau.

2.8.2 Rhaid i'r holl gyfleoedd cadwyn gyflenwi gan gynnwys y rheini yn y cyfnod tendro gael eu hysbysebu ar [wefan y Siop Gontractau (www.contractshop.co.uk)] o leiaf saith diwrnod gwaith cyn cyhoeddi gwahoddiadau i gyflwyno tendr neu bris, a rhaid ystyried yn rhesymol gwmnïau a gofrestrwyd â [Siop Gontractau], yn enwedig y rheini sydd yn ardal y datblygiad neu'r cyffiniau, wrth gyhoeddi gwahoddiadau i dendro neu bris am gyfleoedd contract.

Mae'r cyntaf o'r paragraffau hyn yn galluogi'r Cyflogwr i gyflwyno menter benodol ar ôl dyfarnu'r contract. Mae'r ail yn hwyluso masnachu rhwng cwmnïau – cysylltwch â info@contractshop.co.uk. Bydd effaith y mentrau ôl-ddyfarnu hyn yn gyfyngedig lle bo'r contractwr wedi gwneud ymrwymiad i'w gadwyn gyflenwi cyn dyfarnu'r contract.

Gan fod modd i unrhyw gontractwr gyflawni'r gofynion ar ôl dyfarnu ac oherwydd nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y broses dyfarnu contract, ni ddylai eu cynnwys roi unrhyw gynigydd o dan anfantais.

2.9 Gwybodaeth Fonitro a Gwirio

Dylai gwybodaeth fonitro gael ei halinio â'r gofynion a ddewisir o dan 2.1 – 2.5. Nodir rhai gofynion posibl isod. Mae'r amserlen ar gyfer adrodd hefyd yn bwysig: cynharaf ac amlaf yr adroddiadau, cynharaf y bydd y contractwr yn canolbwyntio ar y gofynion RHT a chadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, er mwyn olrhain cynnydd ac ymateb i wybodaeth fonitro, mae angen adnoddau o ochr y cleient, a gallai prinder yr adnodd hwn bennu'r hyn y gofynnir amdano. Ni ddylai'r cleient ofyn am wybodaeth na ellir ei defnyddio/dadansoddi.

Mae'n bwysig y gellir gwirio canlyniadau allweddol, e.e. wythnosau cyflogaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant. Bydd yr hysbysiadau a awgrymir mewn perthynas â'r diwethaf yn hwyluso hyn ac os caiff dosbarthiadau priodol eu cynnwys ar y profforma bydd hysbysiad yn galluogi'r Cyflogwr i fonitro canlyniadau hyfforddeion yn ôl ethnigrwydd, rhyw, man preswyl ac ati. Os bydd nifer fawr o hyfforddeion, gall fod angen system cronfa ddata i'w cofnodi a dadansoddi.

Ymhen 4 wythnos o gwblhau pob cyfnod [4/13/26] wythnos [dilëwch yn ôl y gofyn] ar ôl Gweithredu, rhaid darparu i'r Cyflogwr Ddatganiad Perfformiad Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu sy'n nodi mewn perthynas â'r cyfnod a'r contract hyd yn hyn:

2.9.1 nifer yr wythnosau cyflogaeth a ddarperir i bob newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant, gan gynnwys y rheini ar safleoedd y tu allan i'r contract os bu angen gwneud hyn i ddarparu cyflogaeth a hyfforddiant parhaus ac os cytunwyd hyn â'r Cyflogwr;

2.9.2 nifer y newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant a gedwir mewn cyflogaeth ar ôl cwblhau eu cyfnod yn 'newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant';

2.9.3 atodlen sy'n dangos ar gyfer pob contractwr ac is-gontractwr:

- nifer y personél sy'n dechrau ar y safle yn y cyfnod ac yn gronnus;
- nifer y swyddi gwag y rhoddwyd gwybod amdanynt i asiantaethau a enwir gan y Cyflogwr;
- nifer y bobl a gyflogir ar y safle mewn unrhyw rinwedd sydd â'u prif breswylfa yn un o'r ardaloedd cod post canlynol [ ] (nodwch y codau post 3 neu 4 digid perthnasol)] neu [codau post yr holl bobl a gyflogir ar y safle mewn unrhyw rinwedd].

2.9.4 atodlen sy'n rhestru'r cwmnïau a wahoddwyd i dendro neu bris am is-gontractau a chontractau cyflenwi o dan 2.8 uchod a nodi pa rai o'r rhain a oedd yn llwyddiannus;

2.9.5 5 [gwerth cyfan is-gontractau a chontractau cyflenwadau a ddyfarnwyd i gwmnïau gyda [chod post] (nodwch y codau post 3 neu 4 digid perthnasol) neu [godau post pob is-gontractwr a chyflenwr a gwerth y contractau a ddyfarnwyd i bob un].

At ddibenion gwirio bydd angen y ddogfennaeth ganlynol ar y Cyflogwr gan ddefnyddio dogfennaeth brofforma a ddarperir:

2.9.6 hysbysiad recriwtio hyfforddeion a lofnodwyd gan yr hyfforddai (i roi caniatâd i ddarparu data personol i'r Cyflogwr at ddibenion monitro contract);

2.9.7 hysbysiad trosglwyddo hyfforddeion os yw hyfforddai'n symud rhwng safleoedd, neu rhwng cyflogwyr a gyflogir yn y datblygiad; a

2.9.8 hysbysiad cwblhau neu derfynu hyfforddai.

3. *Cydymffurfiad Contractwyr ac Isgontractwyr*

Cyfrifoldeb y contractwr yw datblygu dull gwaith a fydd yn cyflawni'r gofynion RHT a'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a data monitro a gwirio perthnasol, a chael cydweithrediad llawn contractwyr ac isgontractwyr i gyflawni'r gofynion hyn.

Caiff y testun hwn ei gynnwys i bwysleisio mai cyfrifoldeb y contractwr yw cyflawni'r gofynion RHT a chadwyn gyflenwi drwy ei gadwyn gyflenwi. Mae'n rhan o'i swydd canfod ffordd o wneud hyn.

4. Cefnogaeth

Nid yw cynnwys gofynion RHT yn cyfaddawdu nac yn arwyddo unrhyw addewid ar ran y Cyflogwr na'i asiantau i ddarparu hyfforddeion neu lafur addas. Nid yw unrhyw gamau a gymerir gan y cyrff hyn na'u hasiantau i gyfryngu perthnasoedd rhwng y contractwr a'r unigolion/cwmnïau/asiantaethau lleol yn awgrymu eu bod hwy na'u hasiantau'n ystyried bod yr unigolyn/cwmni/asiantaeth yn addas i'w gyflogi gan y contractwr. Mae pob cyfrifoldeb recriwtio, goruchwylio a disgyblu yn perthyn i'r contractwr a'r isgontractwyr. Yn y cyd-destun hwn bydd y Cyflogwr yn gweithio gydag asiantaethau lleol i helpu i gyflawni'r gofynion recriwtio a hyfforddi.

Caiff y testun hwn ei gynnwys i amddiffyn y Cyflogwr rhag ceisiadau posibl yn codi yn sgil ei rôl fel cyfryngwr rhwng y contractwr a'r ochr gyflenwi (asiantaethau cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu busnes).

5. Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

Gofynnir i gynigyddion gyflwyno Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu wedi'i gwblhau, gan ddefnyddio'r profforma amgaeedig, gyda phob tendr dilys. [Efallai bydd angen Datganiad Dull RHT diwygiedig cyn dechrau ar y safle a phob 12 mis wedyn].

neu

Cyn llofnodi'r contract [a phob deuddeg mis wedyn] bydd gofyn i'r contractwr a ffafrir lenwi Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu, gan ddefnyddio'r profforma amgaeedig, i foddhad y Cyflogwr.

Cyn llenwi'r Datganiad Dull cynghorir cynigyddion i gael y Daflen Wybodaeth Hyffordidant Adeiladu gan [ ]. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth am hyfforddiant ac adnoddau lleol. Bydd y rhain i gyd yn gweithredu polisi cyfle cyfartal priodol.

I sicrhau sylw cynnar i'r gofynion RHT dylai'r Datganiad Dull fel arfer gael ei dderbyn gyda'r tendr. Os nad yw RHT yn rhan o'r weithdrefn ddyfarnu dylid diystyru hyn nes bod y contract wedi cael ei ddyfarnu. Fel arall, gellir ei sgorio a gellir rhoi pwysiad iddo yn rhan o'r broses ddyfarnu (gweler ...).

Os nad yw RHT ymhlith meini prawf dyfarniad (fel yn ymagwedd 'cam wrth gam' Gwerth Cymru) ac os oes pryderon am arddangos bod gwybodaeth RHT wedi'i diystyru yn y cyfnod dyfarnu, efallai gofynnir am y Datganiad Dull yn y 'cyfnod cynigydd a ffafrir'. Os felly, dylid defnyddio'r ail o'r ddau baragraff cyntaf.

Darperir geiriad dewisol os yw'r datganiad dull am gael ei adnewyddu bob blwyddyn e.e. os yw'r contract yn para llawer o flynyddoedd.

I sicrhau'r un amodau i bob cynigydd, mae'n bwysig rhoi taflen wybodaeth sy'n manylu ar asiantaethau hyfforddiant, paru swyddi a datblygu busnes a fyddai ar gael i weithio gyda'r contractwr penodedig i'w helpu i gyflawni'r gofynion RHT a chadwyn gyflenwi. Dylai'r wybodaeth gynnwys cyllid y gellid ei asesu gan y contractwr. Gall sesiwn wybodaeth gyda phob cynigydd helpu i sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth a ffocws priodol ar y gofynion RHT.

Mae Templed 2 yn cynnwys:

- **Datganiad dull** i gynigyddion gynnwys gofynion RHT a / neu eraill

Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddenyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

[Enw'r Cyflogwr]

Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu Profforma

Teitl y contract .....

Enw'r Cwmni .....

Enw Cyswllt .....

Safle .....

Rhif(au) ffôn .....

Cyfeiriad e-bost .....

Cadarnhaf fod y Datganiad Dull hwn yn nodi'r camau a gymerir i sicrhau y cyflawnir Gofynion Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu y Cyflogwr. Cydnabyddir y bydd cyflawni'r gofynion hyn yn amod contract (ac y gellir eu defnyddio wrth ddyfarnu'r contract].

Llofnod .....

(Enw mewn llythrennau bras) .....

Dyddiad .....

Sicrhewch fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ym mhob un o'r adrannau canlynol. Rhaid cyflwyno'r ddogfen hon yn rhan o bob tendr dilys.

Sylwch: Argymhellir bod cynigyddion yn cael gwybodaeth am adnoddau hyfforddiant a pharu swyddi sydd ar gael yn yr ardal gan [ ] *(nodwch y manylion cyswllt)*.

Mae Tabl 1 yn galluogi'r Cyflogwr i sicrhau y caiff y gofyniad yn 2.1 ei gyflawni drwy gymysgedd addas o grefftau a chymysgedd o brentisiaid a 'hyfforddeion eraill'. Gellir ceisio eglurhad os na fydd y gymysgedd a ddewisir yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd neu'n hawdd ei chyflawni drwy'r sefydliadau ochr gyflenwi.

1. Nifer y Newydd-ddyfodiaid dan Hyfforddiant

Llenwch Dabl 1 mewn perthynas â'r Tendr

Tabl 1 Wythnosau person i'w cyflawni gan newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant (ac eithrio lleoliadau gwaith)

Crefft / galwedigaeth	Cyfanswm Wythnosau Hyfforddai a Hyfforddeion				Cyfanswm Wythnosau Hyfforddai	
	Prentisiaid		Hyfforddeion Eraill			
	W/ Person	Nifer	W/ Person	Nifer	W/ Person	Nifer

W/person – Mae wythnos-person yn gyfwerth ag un person yn gweithio am 5 diwrnod naill ai ar y safle, neu drwy gymysgedd o waith ar y safle a hyfforddiant oddi ar y safle. Er mwyn darparu hyfforddiant a chyflogaeth barhaus, gall hyn gynnwys amser ar safleoedd eraill os bydd y Cyflogwr yn cytuno.

Nifer – nodwch yma nifer yr hyfforddeion a gaiff eu recriwtio i gyflawni'r wythnosau person.

Newydd-ddyfodiad yw rhywun sy'n gadael sefydliad addysgol (e.e. ysgol, coleg neu brifysgol) neu ddarparwr hyfforddiant, neu rywun nad yw wedi'i gyflogi sy'n ceisio cyflogaeth sy'n cynnwys hyfforddiant ac asesu ar y safle neu hyfforddiant oddi ar y safle, neu gymysgedd o'r rhain.

Prentis yw rhywun wedi'i gofrestru fel prentis â chorff a gydnabyddir gan y diwydiant. Gellir cyfrif pob prentis fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos. (gweler troednodyn 3 yn 2.1)

Hyfforddeion Eraill – pobl sydd â chontract hyfforddiant neu gontract cyflogaeth neu hunangyflogaeth nad ydynt yn brentisiaid. Gellir cyfrif pob 'hyfforddai arall' fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos *(gweler troednodyn 3 yn 1.1 o dempled 1 uchod)*.

2. *Cyfleoedd Profiad Gwaith*

Dylai'r cyfanswm yn Nhabl 2 o leiaf adlewyrchu'r gofynion o dan 2.3 yn nhempled 1.

Dangoswch yn Nhabl 2 nifer yr Wythnosau Person a gynigir fel cyfleoedd profiad gwaith. Efallai na fydd rhai o'r cyfleoedd hyn yn cael eu defnyddio.

Tabl 2. Cyfleoedd profiad gwaith digyflog

Galwedigaeth/Gweithgaredd	Nifer yr Wythnosau Person
Cyfanswm	

Dylai'r atebion i gwestiynau 3-9 arddangos bod y contractwr wedi deall y gofynion, a darllen y Daflen Wybodaeth. Dylai'r atebion fodloni arfer da fel y dehonglir gan y Cyflogwr a'r sefydliadau ochr gyflenwi. Gellir cynnwys arloesedd a gwerth ychwanegol yng Nghwestiwn 10.

3. *Recriwtio*

Pa drefniadau a wnewch chi i recriwtio prentisiaid a hyfforddeion eraill o ffynonellau y cytunir arnynt?

4. *Cymorth i Hyfforddeion*

Pa drefniadau a wnewch chi i fentora a chefnogi hyfforddeion a darparu lleoliadau gwaith i sicrhau bod cynifer ohonynt â phosibl yn cael eu cadw ac yn cyflawni achrediad diwydiant?

5. *Cadw Hyfforddeion*

Pa gamau a gymerwch i sicrhau bod cynifer â phosibl o newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant yn cael eu cadw ar ôl cwblhau'r amser y gellir eu cyfrif fel 'newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant', a pha ganran o newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant sy'n dechrau y byddech yn gobeithio eu cadw ar hyn o bryd?

6. Mentrau Hyfforddiant

Pa fentrau hyfforddiant y byddech yn ceisio eu defnyddio, a chyda pha sefydliadau, i sicrhau y cyflawnir y gofynion RHT cymaint â phosibl? Pa drefniadau fydd yn cael eu gwneud i gofnodi ac asesu yn y gweithle?

7. Hysbysu ynghylch Swyddi Gwag

Pa drefniadau a wnewch i roi gwybod am bob swydd wag i asiantaethau a enwir gan y Cyflogwr a darparu amser i ystyried ceisiadau o'r ffynonellau hyn?

8. Contractwyr ac isgontractwyr

Sut byddwch yn cael cydweithrediad contractwyr ac isgontractwyr i sicrhau y cyflawnir y gofynion RHT?

9. Gwybodaeth

Sut byddwch yn sicrhau y gellir rhoi gwybodaeth bersonol am bob 'newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant' i'r Cyflogwr?

10. Rheoli

Pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r gofynion RHT ar y safle a/neu ar gyfer y cwmni?

11. Gwybodaeth Arall

Rhowch yma unrhyw wybodaeth ychwanegol am y ffordd y byddech yn ystyried gweithredu'r gofynion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, gan gynnwys unrhyw syniadau arloesol.

Gall Cwestiwn 11:

- *gael ei ddileu os nad oes angen unrhyw wybodaeth gost ar y Cyflogwr;*
- *cael ei ddefnyddio i sicrhau ymagwedd cost niwtral;*
- *ei ddiwygio er mwyn dangos cost net..*

12. Costau

Llenwch Dabl 3 mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Gofynion RHT.

Tabl 3. Crynodeb o Adnoddau Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

Eitem Gost	£	Sail y cyfrifiad
Rheoli a gweinyddu		
Costau hyfforddi		
Costau safle ychwanegol		
Gweithgareddau mentora a chefnogi		
Cyfanswm cost		
Ffynonellau Cyllid ac Adnoddau eraill		
Grantiau (e.e. gan Sgiliau Adeiladu Cymru)		
Staff / gorbenion presennol y cwmni		
Cynhyrchiant hyfforddeion		
Gwasanaethau gan asiantaethau allanol		
Cyfanswm adnoddau ychwanegol		
Cost Net		Gwahaniaeth rhwng Cyfanswm cost a Chyfanswm adnoddau ychwanegol. [Dylai hyn fod yn DDIM] (dilëwch y testun mewn cromfachau os oes angen cost net)

Templed 3 – Darpariaethau ychwanegol ar gyfer ymagwedd swm blaendal

Mae Templed 3 yn cynnwys:

- Geiriad arall i'w ddefnyddio os oes gofyn i gontractwyr ddarparu blaendal i'w hannog i gyflawni gofynion RHT

Dylai Templed 3:

- Gael ei ddefnyddio ar gyfer cytundebau datblygu i gynnal cyflawniad RHT
- Bod yn ddigon sylweddol i annog recriwtio hyfforddeion *(Mae ffigur rhwng £65 a £100 am bob wythnos hyfforddai newydd wedi'i ddefnyddio mewn mannau eraill.)*
- Bod yn seiliedig ar Ddatganiad Dull RHT blynyddol a dylid ychwanegu chwyddiant at swm y blaendal
- Cael ei osod fel £x yr wythnos hyfforddai (gwerth contract a swm blaendal wedi'u gosod allan yn y Gwahoddiad i Dendro)
- Cael ei ddefnyddio ar yr amod bod trefniadau mewnol i ymdrin â swm y blaendal

Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

2.10 Symiau Blaendal Hyfforddai

2.10.1 Un wythnos cyn Gweithredu i'w dalu i'r Cyflogwr swm blaendal o £[ ] (X wythnos @ £... yr wythnos) *(nodwch y ffigurau)*

neu

2.10.1 Un wythnos cyn Gweithredu i'w dalu i'r Cyflogwr swm blaendal o £[...] yr wythnos hyfforddai newydd fel sy'n ofynnol yn y Gwahoddiad i Dendro [...] *(nodwch y cyfeirnod)* ac fel y nodir yn Nhabl 1 yn y Datganiad Dull RHT;

2.10.2 Ymhen chwe wythnos o gael pob Datganiad Perfformiad Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu neu gael gwybodaeth atodol dderbyniol p'un bynnag yw'r diweddaraf, bydd y Cyflogwr yn ad-dalu i'r contractwr y swm blaendal ar gyfer pob wythnos o gyflogaeth a ddarparwyd ar gyfer newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant yn y cyfnod sy'n cael ei gynnwys yn y Datganiad Perfformiad, yn ogystal â llog a gyfrifir yn ddyddiol ar gyfradd sylfaenol gyfredol [ ] *(nodwch enw'r Banc)* o'r dyddiad y caiff y blaendal ei gyflwyno i ofal y Cyflogwr hyd y dyddiad ad-dalu. Ni all y symiau a ad-dalir fod yn fwy na chyfanswm y blaendal a wnaed i'r dyddiad talu, yn ogystal â llog a gronnir ar y sail a nodir uchod;

2.10.3 Os nad yw'r contractwr yn gallu hawlio ad-daliad llawn o'r blaendal oherwydd tangyflawniad gall gyflwyno gyda'i Ddatganiad Perfformiad gais am ad-daliad dewisol o rywfaint neu'r cyfan o weddill y blaendal. Gall y Cyflogwr wneud ad-daliad os yw'n fodlon bod y contractwr wedi ymdrechu ei orau i gyflawni'r targedau. Mae'n rhaid i'r Cyflogwr ateb hyn ymhen pedair wythnos o ddyddiad cael y cais;

2.10.4 Bydd unrhyw symiau blaendal a llog cysylltiedig a gedwir gan y Cyflogwr ar ôl chwe/deuddeg mis ddod i ben o ddyddiad y Datganiad Perfformiad diweddaraf *(dylai hwn fod yn ddau gyfnod adrodd)* yn cael eu defnyddio i gefnogi mentrau hyfforddiant adeiladu yn yr ardal, ar yr amod bob amser fod y Cyflogwr wedi rhoi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r contractwr fod gweddill y gronfa am gael ei defnyddio fel hyn.

2.10.5 Mae'r contractwr yn cytuno i dalu llog ar symiau sy'n ddyledus i'r Cyflogwr o dan gymal 2.10.1 ond heb eu talu ar y Dyddiad Penodol o'r Dyddiad Penodol hyd daliad gwirioneddol. Bydd y gyfradd llog 4% uwchlaw cyfradd sylfaenol [ ] *(nodwch enw'r Banc)* so bryd i'w gilydd.

4 un wythnos cyn Gweithredu a phob 12 mis wedyn.

Templed 4 – Ychwanegiadau/Amrywiadau ar gyfer Cytundeb Fframwaith a/neu Brynu Grŵp.

Mae Templed 4 yn cynnwys:

- Geiriad arall y gellir ei ddefnyddio wrth gaffael cytundeb fframwaith a chontractau yn ôl y gofyn. Gellir ei addasu i'w ddefnyddio mewn prynu grŵp.

Gallai Templed 4:

- gael ei ddefnyddio'n unol â gofynion o dempled 1 a 2
- fod yn gydnaws â'r ymagwedd swm blaendal

Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

Ychwanegwch y testun canlynol at bwynt 5 yn nhempled 1 (gan addasu ar gyfer pa bynnag un o'r ddau baragraff cyntaf a ddewisir)

Bydd yn amod contract y bydd pob contractwr, ar ôl penodi, yn darparu'r canlynol ar ôl trafod â [ ] (nodwch enw'r cyfryngwr ochr gyflenwi neu gynrychiolydd perthnasol y Cyflogwr) ac yn ystyried unrhyw daflen Wybodaeth Hyfforddiant Adeiladu sydd ar gael:

- Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant Blynyddol yn nodi sut y bydd yn cyflawni'r gofynion a nodir yn 2.1 i 2.9 *[neu 2.10 os caiff gofynion swm blaendal eu cynnwys]* isod. Rhaid cyflwyno hwn i'r Cyflogwr gan ddefnyddio'r profforma a nodir yn Atodiad [ ] *[nodwch y rhif]* ymhen mis o ddewis ar gyfer y fframwaith;
- Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu Prosiect yn rhan o bob contract yn ôl y gofyn gan nodi sut y bydd yn cyflawni'r gofynion a nodir yn 2.1 i 2.9 *[neu 2.10 os yw gofynion swm blaendal am gael eu cynnwys]* isod. Rhaid cyflwyno hwn i'r Cyflogwr gan ddefnyddio'r profforma yn Atodiad [ ] *[nodwch y rhif]*.

Mae'r Datganiad Dull hwn i'w ddefnyddio ar ôl penodi fel cyflenwr fframwaith a chyn cyhoeddi unrhyw gontract yn ôl y gofyn o dan y fframwaith.

Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu Blynyddol y Contractwr

Cyfnod dan sylw – mis Ebrill [.....] hyd fis Mawrth [.....]

Enw'r Cwmni .....

Enw'r Cyflogwr .....

Teitl/Disgrifiad Contract/Tasg .....

Enw Cyswllt .....

Safle .....

Rhif(au) ffôn .....

Cyfeiriad e-bost .....

Cadarnhaf fod y Datganiad Dull hwn yn nodi'r camau a gymerir i sicrhau y cyflawnir Gofynion Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu y Cyflogwr. Cydnabyddir efallai na chawn ein hystyried am y dyfarniad gwaith oni bai bod y Cyflogwr yn cadw Datganiad Dull RHT cyfredol ar ffeil.

Llofnod .....

(Enw mewn llythrennau bras) .....

Dyddiad .....

Sicrhewch fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ym mhob un o'r adrannau canlynol.

1. Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r elfennau RHT o'r contract yn eich sefydliad?

Enw ..... Safle .....

Ffôn ..... E-bost .....

2. Pa drefniadau a wnewch chi ar gyfer recriwtio prentisiaid a hyfforddeion eraill o ffynonellau a enwir gan y Cyflogwr?

3. Pa ffynonellau a enwir y byddwch yn eu defnyddio?

4. Sut byddwch yn trefnu rheoli a goruchwylio'r gwaith/gwasanaethau i sicrhau bod y gofynion RHT yn cael eu cyflawni'n llawn?

5. Pa gamau a gymerir i sicrhau cydweithrediad isgontractwyr lle bo angen hwn i fodloni'r gofynion hyfforddiant?

6. Pwy fydd yn gyfrifol am gyflwyno Ffurflenni Cofrestru Hyfforddeion a Ffurflenni Trosglwyddo a Therfynu? (gweler 2.9.6 – 2.9.8 o'r Gofynion Cyflogwyr).

Enw ..... Safle .....

Ffôn ..... E-bost .....

7. Pa drefniadau a wnewch chi i fentora a chefnogi newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant a lleoliadau profiad gwaith, i sicrhau y cyflawnir achrediad diwydiant cymaint â phosibl ac i sicrhau nad yw'r gofynion ansawdd ar gyfer y Prosiect yn cael eu cyfaddawdu? Sut byddwch yn cofnodi yn y gweithle ac yn asesu ar y safle?

8. Pa drefniadau a wnewch chi i sicrhau bod hyfforddeion a phrentisiaid yn cael eu talu yn ôl arferion diwydiant a bod eu tâl yn cynyddu yn unol â'u profiad a'u cynhyrchiant?

9. Sut byddwch yn ariannu'r gweithgareddau RHT yn y flwyddyn nesaf i leihau'r gost i [Cyflogwyr fframwaith] [y Cyflogwr]?

10. Beth fydd y gost net fesul wythnos hyfforddai newydd (ar ôl cael grantiau ac adnoddau allanol)?

    £ .....

11. O brofiad blaenorol, beth yw'r prif broblemau y mae angen rhoi sylw iddynt i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant yn cael eu recriwtio, eu cadw a'u hachredu'n llwyddiannus o gymunedau a grwpiau targed?

12. Pa gamau a rowch ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn y 12 mis nesaf?

13. Rhowch unrhyw wybodaeth arall am eich ymrwymiad a'r ymagwedd a'r camau y bwriadwch eu cymryd i sicrhau y cyflawnir y gofynion hyfforddiant wedi'i dargedu.

Rhaid cyflwyno'r Datganiad Dull hwn i [ ] *(nodwch enw'r person sy'n cynrychioli'r Cyflogwr/wyr)* o leiaf pedair wythnos cyn dechrau'r contract yn ôl y gofyn cyntaf o dan y fframwaith, a'i adnewyddu erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn wedyn. Os ystyrir bod Datganiad Dull yn anghyflawn neu fel arall yn anfoddhaol, cynghorir y contractwr/wyr drwy gyfarfod ymhen pedair wythnos o gyflwyno a bydd yn cael pythefnos i gyflwyno Datganiad diwygiedig. Os nad yw'r diwethaf yn cael ei dderbyn neu os yw'n annigonol o hyd bydd Hysbysiad Cywiro'n cael ei gyhoeddi a'i gadw ar waith nes bod Datganiad Dull boddhaol wedi'i dderbyn. Efallai bydd bodolaeth Hysbysiad Cywiro cyfredol yn ystyriaeth wrth ddyrannu contractau yn ôl y gofyn.

Dylai'r Datganiad Dull hwn fod yn ofynnol gyda phob cyflwyniad a gyflwynir am gontract yn ôl y gofyn o dan y contract fframwaith lle cynhelir mini-gystadleuaeth. Os yw RHT yn rhan o destun y contract(au) gellir sgorio'r datganiad dull hwn a'i ddefnyddio wrth ddewis y contractwr.

..... ***(nodwch enw)***

Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu Contract yn ôl y Gofyn Profforma

Enw'r Cwmni .....

Enw'r Cyflogwr .....

Teitl/ Disgrifiad Contract/Tasg .....

Enw Cyswllt .....

Safle .....

Rhifau ffôn .....

Cyfeiriad e-bost .....

Cadarnhaf fod y Datganiad Dull hwn yn nodi'r camau a gymerir i sicrhau y cyflawnir Gofynion Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu y Cyflogwr. [Cydnabyddir y gallai'r ddogfen hon gael ei gwerthuso yn rhan o'r broses ddyfarnu].

Llofnod .....

(Enw mewn llythrennau bras) .....

Dyddiad .....

Sicrhewch fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ym mhob un o'r adrannau canlynol. Rhaid cyflwyno'r ddogfen hon yn rhan o bob tendr/pris dilys neu fel y gofynnir amdani fel arall gan y Cyflogwr.

1. Cyfleoedd Hyfforddiant

1.1 Beth yw cyfanswm cynnwys llafur a ragwelir y contract/tasg, ac eithrio TAW,

£ .....

1.2 Sawl Wythnos-person o gyflogaeth gan newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant a ddarperir i gydymffurfio â'r gofynion hyfforddai newydd yn [ ] (nodwch y cyfeiriad) o'r contract fframwaith?

..... wythnos-person

1.3 Llenwch y tabl isod i ddangos y rhaniad cyfleoedd rhwng hyfforddeion sy'n gweithio ar hyn o bryd ar gontractau yn ôl y gofyn eraill o dan y fframwaith mewn ymateb i'r gofynion RHT a hyfforddeion sy'n newydd i'r fframwaith

.

	Wythnosau Person Hyfforddai				
	Blwyddyn 1*	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn4**	**Blwyddyn 5**
Nodwch y flwyddyn ariannol					
Cyfanswm wythnosau person i'w cyflawni (1.2 uchod)					
Wythnosau person i'w defnyddio gan hyfforddeion fframwaith presennol y contractwr**					
Wythnosau person i'w defnyddio gan newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant ychwanegol					

* Blynyddoedd ariannol

** dyma'r dyraniad a ddefnyddir i ddarparu parhad ar gyfer newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant sydd eisoes wedi cofrestru ag aelod o'r consortiwm.

1.4 Llenwch y tabl isod i ddangos nifer y newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant ychwanegol a fydd yn cael eu recriwtio yn ystod cyflawni'r gwaith/gwasanaethau hyn.

Maes Crefft neu broffesiwn	Prentisiaid		Hyfforddeion Eraill	
	Blwyddyn	**Nifer**	**Blwyddyn**	**Nifer**

1.5 Dangoswch yn Nhabl 2 nifer yr Wythnosau Person a gynigir fel cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer hyfforddeion (digyflog yn bennaf) ar y contract/y dasg hon. Efallai na fydd rhai o'r cyfleoedd hyn yn cael eu defnyddio.

Galwedigaeth/Gweithgaredd	Wythnosau person
Cyfanswm	

Nodiadau

Mae Wythnos person yn gyfwerth ag un person yn gweithio am 5 diwrnod naill ai ar y safle, neu drwy gymysgedd o waith ar y safle a hyfforddiant oddi ar y safle.

Nifer – nodwch yma nifer y newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant y rhagwelwch eu recriwtio ar gyfer pob galwedigaeth.

Newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant yw rhywun sy'n gadael sefydliad addysgol neu ddarparwr hyfforddiant, neu rywun sydd heb ei gyflogi ac sy'n ceisio cyflogaeth sy'n cynnwys hyfforddi ac asesu ar y safle, neu hyfforddiant oddi ar y safle (neu gymysgedd o'r rhain), neu rywun sy'n dychwelyd i'r gwaith a dderbynnir fel newydd-ddyfodiad gan Gyflogwr consortiwm. Gellir cyfrif prentis am hyd at [..] wythnos (gweler troednodyn 3 o dempled 1). Gall hyfforddeion eraill gael eu cyfrif am hyd at [ ] wythnos (gweler troednodyn 3 o dempled 1).

Mae prentis yn 'newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant' sydd wedi'i gofrestru fel prentis â chorff a gydnabyddir gan y diwydiant.

Hyfforddeion Eraill – 'newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant' sydd â chontract hyfforddai neu gontract cyflogaeth neu hunangyflogaeth nad ydynt yn brentisiaid.

Templed 5 – Protocol Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

Ymagwedd ddigytundeb neu wirfoddol

Mae Templed 5 yn cynnwys:

- protocol i gael ymrwymiad RHT gan gontractwyr yn wirfoddol pan fo'r contract eisoes wedi'i osod

Mae Templed 5 yn cynnwys gofynion:

- sy'n briodol i fath a maint y gwaith/gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni;
- sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r anghenion yn y gymuned darged;
- y gall yr asiantaethau ochr gyflenwi eu cefnogi;
- y gellir eu monitro a'u holrhain yn effeithiol.

Efallai mai un rheswm dros gyflwyno'r gofynion i gontractwyr presennol yw y rhagwelir y gallant fod yn rhan o gontractau yn y dyfodol pan gânt eu caffael.

Gellir defnyddio'r nodiadau o dempled 1 a 2 mewn cysylltiad â thempled 5.

Ar gyfer contractau hir gall ***datganiadau dull blynyddol*** *fod yn ofynnol..*

Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

..... *(nodwch enw'r Cyflogwr)*

Protocol Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

Y Partïon i'r cytundeb hwn yw:

Y Cyflogwr .....

Llofnodwr awdurdodedig ..... Dyddiad .....

Enw mewn llythrennau bras .....

Safle .....

Ffôn ..... E-bost .....

Y Contractwr

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Llofnodwr awdurdodedig ..... Dyddiad .....

Enw mewn llythrennau bras .....

Safle .....

Ffôn..... E-bost .....

1. Cyflwyniad

Mae gan y Cyflogwr bolisïau sefydledig ar ddatblygu cynaliadwy / cynhwysiant cymdeithasol / adfywio economaidd a chymdeithasol / cyfle cyfartal (dewiswch fel sy'n briodol) ac mae'n dymuno cael cefnogaeth y Contractwr i gyflawni'r rhain drwy gyflawni'r gweithgareddau RHT a chadwyn gyflenwi fel y nodir isod. Cydnabyddir bod cefnogaeth y Contractwr [yn wirfoddol] [yn estyniad i'r contractau cyfredol ac y bydd costau net rhesymol yn daladwy gan y Cyflogwr drwy'r trefniadau agored] (dilëwch fel sy'n briodol).

2. Y Gofynion

Mae'r Contractwr yn cytuno i gyflwyno ymhen pedair wythnos o ddyddiad y Protocol [a phob deuddeg mis wedyn] Ddatganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu, gan ddefnyddio'r profforma amgaeedig, gan nodi sut bydd y canlyniadau yn 2.1 i 2.9 yn cael eu cyflawni [heb gost i'r Cyflogwr[6]] [dilëwch a newidiwch Gwestiwn 11 yn y Datganiad Dull os oes gan y Cyflogwr gontract agored ac os yw'n gallu talu cost y gofynion RHT].

Cyn llenwi'r Datganiad Dull bydd y Contractwr yn cynnal trafodaethau â ..... *(nodwch enw'r asiantaeth)* a sefydliadau ochr gyflenwi eraill a nodir gan y Cyflogwr.

2.1. Newydd-ddyfodiaid dan Hyfforddiant

Darperir [ ] o wythnosau person o gyflogaeth *(gweler ... am drafodaeth ar sut i osod targed priodol)* ar gyfer newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant wedi'i recriwtio o ffynhonnell y cytunwyd arni gan y Cyflogwr, am bob £1m mewn gwerth contract lle bo:

- wythnos person yn gyfwerth ag un person yn cael ei gyflogi am bum diwrnod naill ai ar safle'r datblygiad neu ar safleoedd eraill gyda chytundeb y Cyflogwr;[7]
- newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant[8] yn rhywun sydd wedi gadael yr ysgol neu goleg, neu'n oedolyn nad yw wedi'i gyflogi yn y diwydiant adeiladu yn ystod y chwe mis blaenorol ac sy'n gwneud hyfforddiant tuag at gymhwyster diwydiant adeiladu neu gymhwyster a gydnabyddir gan y Cyflogwr;

(Mae cwestiynau 2, 3 a 4 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

2.2. Recriwtio

Rhaid rhoi gwybod am bob swydd wag ar y safle, gan gynnwys y rheini gydag isgontractwyr, i asiantaethau a enwir gan y Cyflogwr [o leiaf tri diwrnod gwaith cyn recriwtio o fannau eraill], a rhaid i ymgeiswyr a enwir gan yr asiantaethau hyn gael cyfle cyfartal yn y broses ddewis.

Bydd y Contractwr yn ystyried mynd i Bartneriaeth Cyflogwr Lleol neu gytundeb cyfwerth i recriwtio pobl sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur.

(Mae cwestiwn 6 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

5 'costau net' yw cyfanswm costau heb grantiau a gwasanaethau dim cost a gafwyd, ac ar ôl didynnu gwerth cynhyrchiant hyfforddai.

Disgwylir i'r Contractwr dalu cost y gofynion hyfforddiant i'r graddau mwyaf posibl drwy gael cyllid sector cyhoeddus a diwydiant a thrwy reoli'r gwaith yn effeithiol er mwyn cyflawni cynhyrchiant da gan yr hyfforddeion.

Bydd y Contractwr yn darparu trafnidiaeth i safleoedd eraill os nad yw'r rhain o fewn 5 milltir o'r safle lle cyflogir yr hyfforddai'n wreiddiol.

Gallai hyfforddai fod yn gofrestredig fel prentis â chorff cydnabyddedig diwydiant (y gellir ei gyfrif fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos) neu rywun sydd â chontract hyfforddai neu gontract cyflogaeth neu hunangyflogaeth nad yw'n brentis (y gellir ei gyfrif fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos). (nodwch ffigurau)

2.3. Profiad gwaith di-gyflog

Bydd cyfwerth â [*] *(nodwch ffigur – gweler [ ] am arweiniad)* wythnos person am bob £1m mewn gwerth contract ar gael fel cyfleoedd profiad gwaith di-gyflog. Efallai na fydd rhai o'r rhain yn cael eu defnyddio.

(Mae Cwestiwn 2 yn y Datganiad Dull yn berthnasol)

2.4. Hyfforddi'r Gweithlu

Bydd y Contractwr yn ymdrechu'n rhesymol i gynorthwyo cyflogeion i gyflawni cofrestriad CSCS llawn a NVQ Lefel 2 neu gyfwerth a lefelau cymhwyster uwch. Darperir trefniadau i hyfforddi, asesu a chofnodi ar y safle.

(Mae Cwestiwn 5 yn y Datganiad Dull)

2.5. Cynllun Hyfforddi

Pan ofynnir am hwn gan yr hyfforddai neu ei sefydliad hyfforddi, bydd Cynllun Hyfforddi'n cael ei gynnal ar gyfer pob 'hyfforddai newydd', gan ddefnyddio profforma lle darperir hyn. Bydd y Cynllun Hyfforddi ar gael i'w archwilio gan y Cyflogwr a'i asiantau ar unrhyw adeg resymol.

2.6. Fforymau Sgiliau

Bydd y Contractwr yn cefnogi gwaith [nodwch y fforwm hyfforddiant diwydiant perthnasol] a sefydlwyd yn ardal y gwaith.

2.7. Tâl

Bydd hyfforddeion a recriwtiaid yn cael eu talu'n unol ag arferion diwydiant ac yn cael telerau ac amodau cyflogaeth sydd o leiaf cyfwerth â rheini a ddarperir i weithwyr sydd â sgiliau a phrofiad cyfwerth.

Bydd y Contractwr yn defnyddio ymdrechion rhesymol i gynyddu tâl hyfforddeion yn unol â'u profiad a'u cynhyrchiant.

2.8. Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi

Pan fydd y Cyflogwr yn gofyn, bydd y Contractwr:

2.8.1. yn cymryd camau rhesymol i gyfranogi mewn mentrau i nodi a meithrin sefydliadau cadwyn gyflenwi ychwanegol yn ardal y datblygiad a'r cyffiniau;

2.8.2. yn cynnwys cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar wefan y [Siop Gontractau] [www.contractshop.co.uk] o leiaf 7 diwrnod gwaith cyn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro neu bris;

2.8.3. yn ystyried cwmnïau a gofrestrir â'r [Siop Gontractau], yn enwedig y rheini yn ardal y datblygiad a'r cyffiniau, wrth gyhoeddi gwahoddiadau i dendro neu bris am gyfleoedd contract.

2.8.4 engage with Construct Wales before issuing the tender to give them an opportunity to liaise with and support SMEs.

2.9. Gwybodaeth Fonitro a Gwirio

Ymhen 4 wythnos o gwblhau pob cyfnod [4/13/26] wythnos (dilëwch yn ôl y gofyn) ar ôl i'r Cyflogwr dderbyn y Datganiad Dull RHT, bydd y Contractwr yn darparu Datganiad Perfformiad Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu sy'n nodi mewn perthynas â'r cyfnod a'r contract hyd yn hyn:

2.9.1 nifer yr wythnosau cyflogaeth a ddarperir i bob newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant, gan gynnwys y rheini ar safleoedd y tu allan i'r contract os bu angen gwneud hyn i ddarparu cyflogaeth a hyfforddiant parhaus ac os cytunwyd hyn â'r Cyflogwr;

2.9.2 nifer y newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant a gedwir mewn cyflogaeth ar ôl cwblhau eu cyfnod yn 'newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant';

2.9.3. atodlen sy'n dangos ar gyfer pob contractwr ac is-gontractwr:

- nifer y personél sy'n dechrau ar y safle yn y cyfnod ac yn gronnus;
- nifer y swyddi gwag y rhoddwyd gwybod amdanynt i asiantaethau a enwir gan y Cyflogwr;
- nifer y bobl a gyflogir ar y safle mewn unrhyw rinwedd sydd â'u prif breswylfa yn un o'r ardaloedd cod post canlynol [ ] *(nodwch y codau post 3 neu 4 digid perthnasol)*] neu [codau post yr holl bobl a gyflogir ar y safle mewn unrhyw rinwedd].

2.9.4. atodlen sy'n rhestru'r cwmnïau a wahoddwyd i dendro neu bris am is-gontractau a chontractau cyflenwi o dan 2.8 uchod a nodi pa rai o'r rhain a oedd yn llwyddiannus;

2.9.5. [gwerth cyfan is-gontractau a chontractau cyflenwadau a ddyfarnwyd i gwmnïau gyda [chod post] (nodwch y codau post 3 neu 4 digid perthnasol) neu [godau post pob is-gontractwr a chyflenwr a gwerth y contractau a ddyfarnwyd i bob un].

At ddibenion gwirio bydd angen y ddogfennaeth ganlynol ar y Cyflogwr gan ddefnyddio dogfennaeth brofforma a ddarperir:

2.9.6. hysbysiad recriwtio hyfforddeion a lofnodwyd gan yr hyfforddai (i roi caniatâd i ddarparu data personol i'r Cyflogwr at ddibenion monitro contract);

2.9.7. hysbysiad trosglwyddo hyfforddeion os yw hyfforddai'n symud rhwng safleoedd, neu rhwng cyflogwyr a gyflogir yn y datblygiad; a

2.9.8. hysbysiad cwblhau neu derfynu hyfforddai.

3. Cydymffurfiad Contractwyr ac Isgontractwyr

Bydd y Contractwr yn datblygu dull gwaith a fydd yn cyflawni'r gofynion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu a chyfleoedd cadwyn gyflenwi a data monitro a gwirio cysylltiedig, ac yn cael cydweithrediad llawn contractwyr ac isgontractwyr wrth gyflawni'r gofynion hyn.

4. Cefnogaeth

Nid yw cytuno ar Brotocol Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu yn cyfaddawdu nac yn arwyddo unrhyw addewid ar ran y Cyflogwr na'i asiantau i ddarparu hyfforddeion neu lafur addas. Nid yw unrhyw gamau a gymerir gan y cyrff hyn na'u hasiantau i gyfryngu perthnasoedd rhwng y contractwr a'r unigolion/cwmnïau/asiantaethau lleol yn awgrymu eu bod hwy na'u hasiantau'n ystyried bod yr unigolyn/cwmni/asiantaeth yn addas i'w gyflogi gan y Contractwr. Mae pob cyfrifoldeb recriwtio, goruchwylio a disgyblu yn perthyn i'r Contractwr a'r isgontractwyr. Yn y cyd-destun hwn bydd y Cyflogwr yn gweithio gydag asiantaethau lleol i helpu i gyflawni'r gofynion recriwtio a hyfforddi.

..... ***(nodwch enw'r Cyflogwr)***

Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu Profforma

Teitl y contract .....

Enw'r Cwmni .....

Enw Cyswllt .....

Safle .....

Rhif(au) ffôn .....

Cyfeiriad e-bost .....

Cadarnhaf fod y Datganiad Dull hwn yn nodi'r camau a gymerir i sicrhau y cyflawnir Gofynion Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu y Cyflogwr fel y cytunwyd arnynt yn y Protocol RHT dyddiedig ..... . (nodwch y dyddiad)

Llofnod .....

(Enw mewn llythrennau bras) .....

Dyddiad .....

Sicrhewch fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ym mhob un o'r adrannau canlynol.

1. Nifer y Newydd-Ddyfodiaid dan Hyfforddiant

Llenwch Dabl 1 mewn perthynas â'r contract

Tabl 1 Wythnosau person i'w cyflawni gan newydd-ddyfodiaid dan hyfforddiant (ac eithrio lleoliadau gwaith)

Crefft / galwedigaeth	Cyfanswm Wythnosau Hyfforddai a Hyfforddeion				Cyfanswm Wythnosau Hyfforddai	
	Prentisiaid		Hyfforddeion Eraill			
	W/person	Nifer	W/person	Nifer	W/person	Nifer

W/person – mae Wythnos person yn gyfwerth ag un person yn gweithio am 5 diwrnod naill ai ar y safle, neu drwy gymysgedd o waith ar y safle a hyfforddiant oddi ar y safle. I ddarparu hyfforddiant a chyflogaeth barhaus, gall hyn gynnwys amser ar safleoedd eraill os bydd y Cyflogwr yn cytuno.

Nifer – nodwch yma nifer yr hyfforddeion a gaiff eu recriwtio i gyflawni'r wythnosau person.

Newydd-ddyfodiad yw rhywun sy'n gadael sefydliad addysgol (e.e. ysgol, coleg neu brifysgol) neu ddarparwr hyfforddiant, neu rywun sydd heb ei gyflogi ac sy'n ceisio cyflogaeth sy'n cynnwys hyfforddi ac asesu ar y safle, neu hyfforddiant oddi ar y safle neu gymysgedd o'r rhain.

Prentis yw rhywun wedi'i gofrestru fel prentis â chorff a gydnabyddir gan y diwydiant. Gellir cyfrif pob prentis fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos. *(gweler troednodyn 3 yn 2.1)*

OHyfforddeion Eraill – pobl sydd â chontract hyfforddiant neu gontract cyflogaeth neu hunangyflogaeth nad ydynt yn brentisiaid. Gellir cyfrif pob 'hyfforddai arall' fel 'newydd-ddyfodiad' am hyd at [ ] wythnos *(gweler troednodyn 3 yn 2.1)*.

2. *Cyfleoedd Profiad Gwaith*

Dangoswch yn Nhabl 2 nifer yr Wythnosau Person a gynigir fel cyfleoedd profiad gwaith. Efallai na fydd rhai o'r cyfleoedd hyn yn cael eu defnyddio.

Tabl 2. Cyfleoedd Profiad Gwaith

Galwedigaeth/Gweithgaredd	Nifer yr Wythnosau Person
Cyfanswm	

3. *Recriwtio*

Pa drefniadau a wnewch chi i recriwtio prentisiaid a hyfforddeion eraill o ffynonellau y cytunir arnynt?

4. *Cymorth i Hyfforddeion*

Pa drefniadau a wnewch chi i fentora a chefnogi hyfforddeion a darparu lleoliadau gwaith i sicrhau y cedwir cynifer â phosibl ohonynt ac y cyflawnir achrediad diwydiant cymaint â phosibl?

5. *Mentrau Hyfforddiant*

Pa fentrau hyfforddiant fyddech yn ceisio eu defnyddio, a chyda pha sefydliadau, i gyflawni'r gofynion RHT cymaint â phosibl? Pa drefniadau fydd yn cael eu gwneud i gofnodi ac asesu yn y gweithle?

6. *Hysbysu ynghylch Swyddi Gwag*

Pa drefniadau a wnewch chi i roi gwybod am bob swydd wag i Asiantaethau a enwir gan y Cyflogwr a darparu amser i ystyried ceisiadau o'r ffynonellau hyn?

7. Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi

Pa gamau a gymerir i wneud y mwyaf o gyfleoedd is-gontract a chadwyn gyflenwi i gwmnïau yn ardal y datblygiad?

8. Contractwyr ac isgontractwyr

Sut byddwch yn cael cydweithrediad contractwyr ac isgontractwyr i sicrhau y cyflawnir y gofynion RHT?

9. Gwybodaeth

Sut fyddwch yn sicrhau y gellir darparu gwybodaeth bersonol am bob 'newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant' i'r Cyflogwr?

10. Rheoli

Pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r gofynion RHT ar y safle a/neu ar gyfer y cwmni?

11. Gwybodaeth Arall

Rhowch yma unrhyw wybodaeth ychwanegol am y ffordd y byddech yn ystyried gweithredu'r gofynion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, gan gynnwys unrhyw syniadau arloesol.

12. Costau

Llenwch Dabl 3 mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Gofynion RHT.

Tabl 3. Crynodeb o Adnoddau Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu

Eitem Gost	£	Sail y cyfrifiad
Rheoli a gweinyddu		
Costau hyfforddiant		
Gweithgareddau mentora a chefnogi		
Gweithgareddau mentora a chefnogi		
Cyfanswm cost		
Ffynonellau Cyllid ac Adnoddau eraill		
Grantiau (e.e. gan CITB)		
Staff/gorbenion presennol y cwmni		
Cynhyrchiant hyfforddeion		
Gwasanaethau o asiantaethau allanol eraill		
Cyfanswm adnoddau ychwanegol		
Cost Net		Gwahaniaeth rhwng Cyfanswm cost a Chyfanswm adnoddau ychwanegol. [Dylai hwn fod yn DDIM] (dilëwch y testun mewn cromfachau os oes angen cost net)

Gall Cwestiwn 12:

- *gael ei ddileu os nad oes angen unrhyw wybodaeth gost ar y Cyflogwr e.e. gan na fydd unrhyw daliadau ychwanegol yn cael eu gwneud*
- *ei ddefnyddio i sicrhau ymagwedd cost niwtral*
- *ei newid er mwyn dangos cost net e.e. o dan drefniant cadw cyfrifon agored.*

Templed 6 – Fframwaith Sgorio Enghreifftiol ar gyfer Caffaeliad Adeilad

Templed 6 yn cynnwys:

- fframwaith sgorio i'w ddefnyddio wrth sgorio cynigyddion am gontractau. Mae'n awgrymu mecanwaith sgorio.

Mae angen **alinio'r** cwestiynau a threfn y cwestiynau â'r **Datganiad Dull RHT.** Ystyriwch ba wybodaeth sy'n berthnasol yn lleol.

Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio. Am gyngor ar gynnwys camau cynhwysiant cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus cysylltwch â 'Siop Un Stop' Polisi Gwerth Cymru yn vwpolicy@wales.gsi.gov.uk'

Teitl y Contract ..... **Enw'r Cynigydd** .....

Sgoriau Gofyniad Allweddol		Pwyntiau		Canllaw i ymateb da
		Mwyaf	**Gwir**	
Recriwtio wedi'i Dargedu	Bydd yn hysbysu asiant RHT addas	3		Enwi asiant RHT a fydd yn bodloni nodau'r cleient
	Nodi bod ganddo bolisi cydraddoldeb	1		Cyfeirio at bolisi
	Darparu neu ddyfynnu polisi cydraddoldeb	1		Tystiolaeth ysgrifenedig o bolisi
	Archwilio polisïau cydraddoldeb isgontractwyr	1		Dweud bod ganddo broses i sicrhau bod gan isgontractwyr bolisïau cydraddoldeb
	Rhoi enghreifftiau o hyrwyddo cydraddoldeb	1		Cyfeirio at brofiad o annog ceisiadau gan gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu gweithlu
	Dull ar gyfer cydymffurfiad isgontractwyr*	3		Dweud sut y bydd yn sicrhau bod isgontractwyr yn rhoi gwybod am bob swydd wag
	Sgôr Sector	10		
Hyfforddeion Newydd	Cwblhau Tabl (1) yn gywir	2		A oes amrywiaeth o alwedigaethau'n cael ei dangos, ac wythnosau person a niferoedd am bob un. A yw'r cyfanswm yn gywir?
	Cymysgedd o brentisiaid a hyfforddeion	4		A yw'r gymysgedd o hyfforddeion yn ymddangos yn gyraeddadwy mewn perthynas â chyflenwad hyfforddeion a'r costau/cyllid a ddangosir yn Nhabl 5.1?
	Lledaenu ar draws crefftau	4		Llif hyfforddeion drwy gydol y gwaith, a chyfleoedd i newydd-ddyfodiaid â gwahanol ddiddordebau a galluoedd
	Cyfanswm wythnosau person	4		A yw hyn yn cynrychioli 52 Wythnos Person am bob £1m mewn gwerth contract?

Sgoriau Gofyniad Allweddol		Pwyntiau		Canllaw i ymateb da
		Mwyaf	**Gwir**	
	Hyfforddeiaethau'n para'n ddigon hir	4		Wythnosau person fesul crefft wedi'u rhannu wrth nifer y recriwtiaid: a yw hyd yr hyfforddiant yn unol â'r diffiniadau ac arferion hyfforddi crefft?
	Cyfeirio at gynlluniau hyfforddi	3		A oes ymrwymiad i gynllunio hyfforddiant mewn swydd?
	Mentora a chefnogi	4		Disgrifiad o gefnogaeth a mentora i hyfforddeion. Goruchwyliwr hyfforddiant. Mentor personol. Adolygiadau cynnydd rheolaidd.
	Trefniadau rheoli hyfforddeion	2		A fydd goruchwyliwr neu reolwr hyfforddiant yn cael ei enwi? A fydd adolygiadau cynnydd rheolaidd? A fydd y darparwr hyfforddiant yn cymryd rhan?
	Sut i gynnwys isgontractwyr*	3		A fydd y datblygwr/contractwr yn cyflogi'r hyfforddeion? Os na sut bydd yr isgontractwyr yn cael eu cynnwys e.e. gofyniad contract?
	Sgôr Sector	**30**		
Profiad Gwaith	Llenwi tabl 2)	1		Fel y cwblheir tabl 2.2
	Cyfanswm wythnosau person	1		A yw hyn yn cynrychioli 13 Wythnos Person fesul £1m mewn gwerth contract?
	Lledaenu ar draws crefftau	2		A yw hyn yn rhoi cyfleoedd mewn crefftau lle bydd diddordeb?
	Sgôr Sector	4		
Cyfleoedd i Fusnesau Bach a Chanolig	Bydd yn gweithio gydag Asiantaeth addas	7		Enwi asiant RHT a fydd yn bodloni nodau OMBC
	Dweud sut y bydd yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl	7		Nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gynnwys tri chwmni ar bob rhestr
	Rhoi enghraifft o arfer cyfredol	4		Dweud sut mae'n ceisio nodi cyflenwyr ychwanegol ar hyn o bryd
	Rhoi enghraifft o arfer rywle arall	2		Dweud a yw wedi ymwneud â chynlluniau tebyg rywle arall
	Sgôr Sector	**20**		

Sgoriau Gofyniad Allweddol		Pwyntiau		Canllaw i ymateb da
		Mwyaf	**Gwir**	
Monitro	Gwybodaeth am staffio ar gyfer monitro	1		Dweud pwy yn y sefydliad – gweithredwr clerigol – fydd yn gyfrifol
	Nodi pa ddata cynnyrch gwiriadwy y bydd yn ei ddarparu	5		Cyfeirio at adroddiad chwarterol; darparu wythnosau hyfforddai; wedi darparu wythnosau profiad gwaith; cwmnïau o restr a wahoddwyd i dendro a chanlyniad; wedi cael achrediad.
	Sut bydd yn casglu data gan isgontractwyr?*	3		Proses am gael wythnosau hyfforddeion a chodau post gan isgontractwyr e.e. drwy gofnodion diogelwch safle neu 'enillion' eraill
	Cyfeirio at ddiogelu data	1		Nodi ei fod yn deall y mater ac yn cael cytundeb y gweithwyr i ddarparu data personol lle bo angen
	Sgôr Sector	**10**		
Rheoli	Wedi rhoi gwybodaeth gyswllt	2		A ddarperir y manylion cyswllt?
	Gwybodaeth am brofiad	4		Gwybodaeth am brofiad perthnasol y person a enwir e.e. contractau lle mae wedi cyflawni RHT o'r blaen
	Sgôr Sector	**6**		
Ymagwedd Gyllid	Wedi cwblhau Tabl 5.1	3		A yw holl adrannau'r tabl wedi'u cwblhau? A yw'r fathemateg yn gywir?
	Defnyddio adnoddau allanol	5		A yw'n gwneud y mwyaf o ddefnyddio adnoddau allanol ar gyfer hyfforddiant a pharu swyddi?
	Wedi dangos gwerth gwaith hyfforddeion	2		IOs yw cyflog hyfforddai wedi'i gynnwys, a roir gwerth i'w waith? (Sgôr lawn os nad yw hyn yn berthnasol)
	Sgôr Sector	**10**		
Datganiad	Deall amcanion y Cyngor	3		Datganiad o gefnogaeth i'r amcanion RMBC
	Ymrwymiad	3		Datganiad o'i ymrwymiad i hyfforddiant, cymunedau dan anfantais, cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig

Sgoriau Gofyniad Allweddol		Pwyntiau		Canllaw i ymateb da
		Mwyaf	**Gwir**	
	Syniadau arloesol	4		A yw wedi awgrymu unrhyw arloesiad defnyddiol?
	Sgôr Sector	**10**		
	Cyfanswm Sgôr	**100**		

*Os nad oes unrhyw isgontractwyr yn cael eu cynnwys dylid dyfarnu'r pwyntiau llawn.

Sgoriwyd gan ..... (Enw mewn llythrennau bras) .....

(Llofnod) .....

Dyddiad ..... Rhif Ffôn .....

E-bost .....

Archwiliwyd gan ..... (Enw mewn llythrennau bras) .....

(Llofnod) .....

Dyddiad ..... Rhif Ffôn .....

E-bost .....

Templed 7 – Cymalau Contract Enghreifftiol

A. Amodau Contract Safonol

Mae Templed 7 yn cynnwys:

- cymalau contract sy'n briodol i'w defnyddio yn y rhan fwyaf o fathau o gontract os yw'r awdurdod contractio wedi ymgorffori'r **gofynion RHT sylfaenol** o dempled 1 a defnyddio'r **datganiad dull** RHT yn nhempled 1.
- Cymalau y gellir eu **haddasu** a'u **hestyn** i ddarparu system lle gall y contractwr/wyr ddarparu datganiad dull ar gyfer contractau yn ôl y gofyn unigol o dan y fframwaith hwnnw.
- Cymalau contract i'w defnyddio pan ddefnyddir **ymagwedd swm blaendal.** Mae hyn yn benodol o berthnasol i **gytundebau datblygu**, a sefyllfaoedd eraill lle rhagwelir y bydd partïon y contract yn newid dros y cyfnod a gaiff sylw yn y contract.

Readers should seek legal advice before use. For advice on including social inclusion measures in public sector contracts please contact the Value Wales Policy 'One Stop Shop' at vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

1. Diffiniadau A Dehongliadau

Wythnos person	yw'r amser cyfwerth ag un person yn cael ei gyflogi am bum diwrnod naill ai ar safle'r datblygiad neu drwy gymysgedd o waith ar safle'r datblygiad a mannau eraill
Newydd-ddyfodiad	yw person • sy'n gadael sefydliad addysgol neu ddarparwr hyfforddiant; • sydd heb ei gyflogi sy'n ceisio cyflogaeth sy'n cynnwys hyfforddi tuag at gymhwyster cydnabyddedig diwydiant adeiladu ac asesiad yn safle'r datblygiad neu hyfforddiant rywle arall; neu • gymysgedd o'r rhain
Hyfforddeion Eraill	yw pobl nad ydynt yn Brentisiaid ond sydd â chontract hyfforddiant ac: • sydd â chontract cyflogaeth; neu • sy'n hunangyflogedig
Prentis	yw person a gydnabyddir fel prentis gyda chorff cydnabyddedig diwydiant

2. Creu Cyfleoedd Hyfforddiant a Chyflogaeth

2.1 Bydd y Contractwr yn mynd ati i gyfranogi yn y potensial am adfywio economaidd a chymdeithasol o ganlyniad i Gontract Penodol i Brosiect ac yn cyflawni'r gofynion a nodwyd yn Natganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu y Contractwr yn Atodlen [ ] i'r Cytundeb hwn.

2.2 Gellir addasu'r Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu unrhyw bryd os bydd y ddau barti'n cytuno.

2.3 Bydd y Datganiad Dull Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu yn cynnwys y canlyniadau canlynol:

2.3.1 Darperir o leiaf 78 wythnos person o gyflogaeth ar gyfer newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant wedi'i recriwtio o ffynhonnell y cytunwyd arni gan y Cleient, ar gyfer pob £1m mewn gwerth contract a ddarperir:

2.3.1.1 Os yw cyflogaeth yn digwydd ar safle ymhellach na phum milltir o'r safle datblygiad, bydd trafnidiaeth i safleoedd eraill yn cael ei darparu;

2.3.1.2 Gellir cyfrif prentisiaid am hyd at 104 wythnos o gyflogaeth;

2.3.1.3 Gellir cynnwys Newydd-ddyfodiaid a Hyfforddeion Eraill am hyd at 52 wythnos o gyflogaeth.

2.4 Recriwtio

Rhaid rhoi gwybod am bob swydd wag ar y safle, gan gynnwys y rheini gydag isgontractwyr, i'r asiantaethau hynny a nodir yn Atodlen [ ] i'r Cytundeb hwn, rhaid i ymgeiswyr a nodir gan yr asiantaethau hynny gael cyfle cyfartal yn y broses ddewis.

2.5 Profiad gwaith digyflog

Rhaid gwneud amser cyfwerth â 5 wythnos person am bob £1m mewn gwerth contract ar gael fel cyfleoedd profiad gwaith digyflog. Efallai na chaiff rhai o'r rhain eu defnyddio.

2.6 Tâl

Bydd Newydd-ddyfodiaid, Prentisiaid a Hyfforddeion Eraill yn cael eu talu'n unol ag arferion diwydiant ac yn cael telerau ac amodau cyflogaeth sydd o leiaf cyfwerth â'r rheini a ddarperir i weithwyr sydd â'r sgiliau a phrofiad.

Anogir cyflogwyr i gynyddu tâl Newydd-ddyfodiaid, Prentisiaid a Hyfforddeion Eraill yn unol â'u profiad a'u cynhyrchiant.

2.7 Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi

Pan fydd y Cleient yn gofyn, bydd y Contractwr yn cyfranogi mewn mentrau i nodi a meithrin sefydliadau cadwyn gyflenwi ychwanegol yn ardal y datblygiad neu'r cyffiniau.

2.8 Gwybodaeth Fonitro a Gwirio

Ymhen pedair wythnos o gwblhau pob cyfnod tair wythnos ar ddeg ar ôl gweithredu pob contract bydd y Contractwr yn darparu i'r Cleient Ddatganiad Perfformiad Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu gan nodi mewn perthynas â'r cyfnod a'r contract hyd yn hyn:

2.8.1 nifer yr wythnosau cyflogaeth a ddarperir i bob Newydd-Ddyfodiad, Prentis neu Hyfforddai Arall gan gynnwys y rheini a gyflogir y tu allan i safle'r datblygiad lle bo hyn:

- yn angenrheidiol i ddarparu cyflogaeth a hyfforddiant parhaus i'r Newydd-Ddyfodiad, Prentis neu Hyfforddai Arall; ac
- wedi'i gytuno â'r cleient.

2.8.2 atodlen sy'n dangos ar gyfer pob is-gontractwr:

- nifer y personél sy'n dechrau ar y safle yn y cyfnod ac yn gronnus;
- nifer y swyddi gwag y rhoddwyd gwybod amdanynt i asiantaethau a enwir gan y Cleient;
- codau post pawb a gyflogir ar y safle mewn unrhyw rinwedd, gan gynnwys y nifer sydd â'u prif breswylfa yn un o'r ardaloedd cod post canlynol [ ] [nodwch y codau post 3 digid perthnasol].

2.8.3 atodlen yn rhestru'r cwmnïau a wahoddir i dendro neu bris am is-gontractau a chontractau cyflenwi o dan 13.3.5 uchod ac yn nodi pa rai o'r rhain a lwyddodd;

2.8.4 cyfanswm gwerth is-gontractau a chontractau cyflenwadau a ddyfarnwyd i gwmnïau gyda chod post [ ] *[nodwch y cod(au) post 3 digid perthnasol)]*.

2.8.5 hysbysiad recriwtio hyfforddai a lofnodwyd gan y Newydd-Ddyfodiad, Prentis neu Hyfforddai Arall sy'n rhoi caniatâd i ddarparu data personol i'r Cleient at ddibenion monitro contract;

2.8.6 hysbysiad trosglwyddo hyfforddai lle caiff Newydd-Ddyfodiad, Prentis neu Hyfforddai Arall ei symud rhwng safleoedd, neu rhwng cyflogwyr a gyflogir yn y datblygiad;

2.8.7 hysbysiad cwblhau neu derfynu Hyfforddai.

2.9 Cydymffurfiad Contractwyr ac Isgontractwyr

Cyfrifoldeb y Contractwr yw datblygu dull gwaith a fydd yn cyflawni'r gofynion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu a chyfleoedd cadwyn gyflenwi a data monitro a gwirio cysylltiedig, a chael cydweithrediad llawn isgontractwyr a chyflenwyr wrth gyflawni'r gofynion hyn.

3 Cefnogaeth

Nid yw cynnwys gofynion recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu yn cyfaddawdu nac yn arwyddo unrhyw addewid ar ran y Cleient na'i asiantau i ddarparu hyfforddeion neu lafur addas. Nid yw unrhyw gamau a gymerir gan y cyrff hyn na'u hasiantau i gyfryngu perthnasoedd rhwng y Contractwr a'r unigolion/cwmnïau/asiantaethau lleol yn awgrymu eu bod hwy na'u hasiantau'n ystyried bod yr unigolyn/cwmni/asiantaeth yn addas i'w gyflogi gan y Contractwr. Mae pob cyfrifoldeb recriwtio, goruchwylio a disgyblu yn perthyn i'r Contractwr a'r isgontractwyr. Yn y cyd-destun hwn bydd y Cleient yn gweithio gydag asiantaethau lleol i helpu i gyflawni'r gofynion recriwtio a hyfforddi.

Atodlen [ ] – Creu Cyfleoedd Hyfforddiant a Chyflogaeth – Datganiad Dull

[Sylwer: i'w datblygu drwy gyfeirio at gynigion y Cynigydd]

Atodlen [ ] – Asiantaethau a hysbysir gan y Cleient yn unol â chymal 1.3.2

B. Cymalau Contract ar gyfer yr Ymagwedd Swm Blaendal

3.1 Symiau Blaendal Hyfforddeion

3.1.1 bydd y Contractwr yn talu i'r Cyflogwr swm blaendal o £[ ] ([ ] wythnos am £[] yr wythnos) ar y Dyddiad Penodedig;

neu

3.1.1 bydd y Contractwr yn talu i'r Cyflogwr swm blaendal o £[ ] yr wythnos hyfforddai newydd fel y nodir yn Nhabl 1 yn y Datganiad Dull RHT ar y Dyddiad Penodedig;

wedyn

3.1.2 Ymhen chwe wythnos o gael pob Datganiad Perfformiad Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu neu gael gwybodaeth atodol dderbyniol (p'un bynnag yw'r diwethaf) bydd y Cyflogwr yn ad-dalu i'r Contractwr y swm blaendal ar gyfer pob wythnos o gyflogaeth a ddarparwyd ar gyfer newydd-ddyfodiad dan hyfforddiant yn y cyfnod a gafodd ei gynnwys yn y Datganiad Perfformiad, yn ogystal â llog a gyfrifir yn ddyddiol ar gyfradd sylfaenol gyfredol Banc [ ] o'r dyddiad y caiff y blaendal ei gyflwyno i ofal y Cyflogwr hyd y dyddiad ad-dalu;

3.1.3 Os nad yw'r Contractwr yn gallu hawlio ad-daliad llawn o'r blaendal oherwydd tangyflawniad caiff y Contractwr gyflwyno gyda'i Ddatganiad Perfformiad gais am ad-daliad dewisol o rywfaint neu'r cyfan o weddill y blaendal;

3.1.4 Caiff y Cyflogwr wneud ad-daliad dewisol os yw'n fodlon fod y Contractwr wedi ymdrechu ei orau i gyflawni'r targedau;

3.1.5 Mae'n rhaid i'r Cyflogwr ateb cais y Contractwr am ad-daliad dewisol ymhen pedair wythnos o ddyddiad cael y cais;

3.1.6 Defnyddir unrhyw symiau blaendal a llog cysylltiedig a gadwyd gan y Cyflogwr ar ôl i'r ddau gyfnod adrodd ddod i ben o ddyddiad y Datganiad Perfformiad diweddaraf eu defnyddio i gefnogi mentrau hyfforddiant adeiladu yn yr ardal, ar yr amod bob amser fod y Cyflogwr wedi rhoi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r Contractwr fod gweddill y gronfa am gael ei defnyddio fel hyn;

3.1.7 Mae'r Contractwr yn cytuno i dalu llog ar symiau sy'n ddyledus i'r Cyflogwr o dan gymal 2.6.1 ond heb eu talu ar y Dyddiad Penodol o'r Dyddiad Penodol hyd y taliad gwirioneddol. Bydd y gyfradd llog 4% uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc [ ].

Dylid diffinio'r 'Dyddiad Penodedig' o dan y contract; yn aml mae hyn wythnos cyn gweithredu'r gofynion RHT [a phob pen-blwydd wedyn].

3.2 Aseiniad

3.2.1 Os bydd y Contractwr yn gwaredu rhywfaint neu'r cyfan o'i fudd yn y Cytundeb, cyfrifoldeb y Contractwr yw adennill swm cyfwerth ag unrhyw symiau blaendal heb eu hawlio gan y sawl sy'n cael ei aseinio neu gontractwr newydd arall a chynghori'r Cyflogwr am enw'r sefydliad sydd â'r hawl i adennill y symiau blaendal ar sail Datganiadau Perfformiad dilynol.

3.2.2 I osgoi amheuaeth, os bydd y Contractwr yn Gontractwr dirprwyol a benodwyd yn lle'r Contractwr gwreiddiol, ni fydd yn atebol heblaw o dan y Cytundeb hwn mewn perthynas â'r rhan honno o'r gwasanaethau a'r gwaith y'i penodwyd yn Gontractwr dirprwyol yn ei chylch.